

Dim creithiau

*“Ond trwy ras Duw yr wyf yr hyn ydwyf, ac ni bu ei ras ef tuag ataf yn ofer.”
(adn. 10)*

Beth am ddarlflen 1 Corinthiaid 15:1–11 ac yna myfyrio

Wrth i ni wynebu her yr unfed ganrif ar hugain, rhaid i ni ddelio â phob achos a all greu rhwyg yn ein plith, gan benderfynu ymlaen llaw sut yr ydym am ddelio gyda'r achosion hynny. Yr ydym wedi dweud eisoes na allwn byth ymrwymo i beidio anghytuno am ddim, ond fe allwn ein hymrwymo'n hunain i ddiogelu na fyddwn yn caniatáu i anghytundeb ddatblygu yn chwewder ac yn ddieter. Gall hyn ddigwydd os byddwn yn ymrwymo i'r Arglwydd Iesu Grist.

Y diwrnod o'r blaen, dywedais fod yr eglwys yn Antiochia wedi gwrthod caniatáu i'r anghytundeb rhwng Barnabas a Paul greu rhwyg yn yr eglwys. Tynnwyd fy sylw at ddyfyniad o lyfr Henry Alford, *Greek Testament*. “Mae'n debyg fod yna gryn wahaniaeth yng nghymeriad eu myned allan. Mae'n debyg fod Barnabas wedi mynd allan gyda'i nai, heb fawr o gydymdeimlad, nac anogaeth, ond bu i Paul gael ei gymeradwyo i ras Duw gan yr eglwys gynlledig. A oedd hyn yn ffordd garedeg o ddweud: ‘Nid ydym am gymryd ochr, ond, Barnabas, nid ydym chwaith yn credu mai gwahanu yw'r ffordd iawn i ddelio â'r achos hwn.’” A fu i ras orchfygu?

Os symudwn ychydig flynyddoedd ymlaen i'r cyfnod pan fu i Paul anfon ei ail lythyr at Timotheus, yr ydym yn darganfod y geiriau yma: “Luc yn unig sydd gyda mi. Galw am Marc, a thyrd ag ef gyda thi, gan ei fod o gymorth mawr i mi yn fy ngweinidogaeth.” (2 Tim. 4:11). Tybed a oedd Paul yn meddwl wrth ysgrifennu'r geiriau hyn: “Yr oeddwn yn galed ac yn ddiwyro gyda Ioan Marc yn y dyddiau cynnar. Cymerodd Barnabas ef o dan ei adain a'i annog.” Efallai fod angen anogaeth arno yn fwy na phregeth. Beth bynnag, mae hyn i gyd, bellach, yn y gorffennol. Mae'r berthynas wedi ei hadfer. Roedd y creithiau wedi eu cuddio. Diolch i Dduw.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Rhuf. 5:12–20; 11:1–6; 2 Cor. 13:5–14; Titus 3:3–7; 2 Pedr 3:18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw gras?
2. Sut mae tyfu mewn gras?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i gymryd golwg ar fy mherthynas â phobl heddiw, ac os oes yna berthynas sydd yn dioddef oherwydd diffyg cymod, caniatâ i mi'r gras i ddelio â'r mater hwn. Rwy'n gofyn hyn yn enw bendigedig Iesu Grist. Amen.